OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2011 Rhif 2514 (Cy. 276)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Rhydaman, Sir Gaerfyrddin) (Amrywiol Gyfyngiadau Aros) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *20 Hydref 2011* |
| *Yn dod i rym* | *31 Hydref 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A483 Abertawe i Fanceinion (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 1(1) , 2(1) a (2), 4(2) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi(1) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "Deddf 1984"), ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed-Powys, yn gwneud y Gorchymyn hwn:-

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 31 Hydref 2011. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Rhydaman, Sir Gaerfyrddin) (Amrywiol Gyfyngiadau Aros) 2011.

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn:

mae i "bathodyn person anabl" ("*disabled person's badge*") yr ystyr a roddir iddo yn Rheoliad 2 o Rheoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur (Cymru) 2000(2);

mae i "disg parcio" ("*parking disc*") yr ystyr a roddir iddo yn Rheoliad 8(5) o Reoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Esemptiadau ar gyfer Personau Anabl) (Cymru) 2000(3);

(2) At ddiben y Gorchymyn hwn bernir bod cerbyd yn arddangos:-

(i) bathodyn person anabl yn y man priodol:-

(a) yn achos cerbyd ac iddo banel deialau neu ddangosfwrdd, os yw'r bathodyn yn cael ei arddangos ar

y panel neu'r dangosfwrdd fel bod Rhan 1 o'r bathodyn yn eglur ac yn ddarllenadwy o'r tu allan i'r cerbyd; neu

(b) yn achos cerbyd nad oes iddo banel deialau neu ddangosfwrdd, os yw'r bathodyn yn cael ei arddangos mewn lle amlwg yn y cerbyd neu arno fel bod Rhan 1 o'r bathodyn yn eglur ac yn ddarllenadwy o'r tu allan i'r cerbyd; a

(ii) mae disg parcio yn y lle perthnasol:-

(a) yn achos cerbyd ac iddo banel deialau neu ddangosfwrdd, os yw'r disg yn cael ei arddangos ar y panel neu'r dangosfwrdd fel bod y cyfnod o chwarter awr pan ddechreuodd y cyfnod aros yn eglur ac yn ddarllenadwy o'r tu allan i'r cerbyd; neu

(b) yn achos cerbyd nad oes iddo banel deialau neu ddangosfwrdd, os yw'r disg yn cael ei arddangos mewn lle amlwg yn y cerbyd neu arno fel bod y cyfnod o chwarter awr pan ddechreuodd y cyfnod aros yn eglur ac yn ddarllenadwy o'r tu allan i'r cerbyd.

(3) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

3. Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 8(1)(a), (c), (ch), (d), (dd) ac (e), ni chaiff neb, ac eithrio yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu, swyddog traffig neu swyddog gorfodi sifil, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros, llwytho na dadlwytho ar ymylon y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

4. Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 8(1)(a), (b), (c), (ch), (d), (dd), (e) a (2), ni chaiff neb, ac eithrio yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu, swyddog traffig neu swyddog gorfodi sifil, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros ar ymyl y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

5. Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 8(1)(a), (b), (c), (ch), (d), (dd) ac (e), ni chaiff neb, ac eithrio yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu, swyddog

traffig neu swyddog gorfodi sifil, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio tacsi, aros ar ymyl y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

6. Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 8(1)(a), (b), (c), (ch), (d), (dd) ac (e), ni chaiff neb, ac eithrio yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu, swyddog traffig neu swyddog gorfodi sifil, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio i lwytho neu ddadlwytho, rhwng 09:00 o'r gloch a 17:00 o'r gloch ar unrhyw ddiwrnod ac eithrio dydd Sul, aros ar ymylon y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn

7. Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 8(1)(a), (b), (c), (ch), (d), (dd) ac (e) a (3), ni chaiff neb, ac eithrio yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu, swyddog traffig neu swyddog gorfodi sifil, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd sy'n arddangos bathodyn person anabl, aros ar ymyl y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 5.

8. (1) Nid oes dim yn erthyglau , 4, 5, 6 a 7, a 3 ac eithrio 8(1)(b), yn ei gwneud yn anghyfreithlon i beri neu i ganiatáu i unrhyw gerbyd aros ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn cyhyd ag sy'n angenrheidiol i alluogi:-

(a) person i fynd i mewn i gerbyd, neu i ddod allan ohono;

(b) nwyddau i gael eu llwytho ar y cerbyd neu eu dadlwytho ohono;

(c) y cerbyd, os na ellir ei ddefnyddio'n hwylus at y diben hwnnw ar unrhyw ffordd arall, i gael ei ddefnyddio, mewn cysylltiad ag unrhyw un o'r gweithrediadau canlynol, sef: -

i. gwaith adeiladu, gwaith diwydiannol neu waith dymchwel;

ii. symud unrhyw rwystr i draffig;

iii. cynnal-a-chadw, gwella neu ailadeiladu'r darnau hynny o’r gefnffordd; neu

iv. gosod, codi, newid neu drwsio, y darnau hynny o'r gefnffordd neu ar dir cyfagos iddynt, unrhyw garthffos neu unrhyw brif bibell, unrhyw bibell neu unrhyw offer ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan neu unrhyw linell delegraffig fel y'i

diffinnir yn Neddf Cyfathrebu 2003(4);

(ch) y cerbyd i'w ddefnyddio yng ngwasanaeth awdurdod lleol neu awdurdod dŵr yn unol â phwerau neu ddyletswyddau statudol;

(d) y cerbyd i gymryd petrol, olew, dŵr neu aer o unrhyw garej sydd ar y darn o'r gefnffordd neu'n gyfagos iddo;

(dd) y cerbyd i'w gael ei ddefnyddio at ddibenion y frigâd dân, y gwasanaeth ambiwlans neu'r heddlu; neu

(e) bod y cerbyd sy'n aros pan fo person sydd â rheolaeth arno'n gwneud y canlynol:

i. pan fydd yn ofynnol yn ôl y gyfraith iddo stopio;

ii. pan fydd rhaid iddo stopio er mwyn osgoi damwain; neu

iii. pan gaiff ei rwystro rhag mynd yn ei flaen dan amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth.

(2) Nid oes dim yn erthygl 4 yn ei gwneud yn anghyfreithlon i beri neu i ganiatáu i gerbyd person anabl y mae bathodyn person anabl a disg barcio (y mae'r gyrrwr, neu berson arall sydd â rheolaeth ar y cerbyd wedi marcio arno yr amser pan ddechreuodd y cyfnod aros) yn cael eu harddangos arno, aros ar ymyl y darn o'r gefnffordd y cyfeirir ato am gyfnod nad yw'n fwy na thair awr, a bod hwnnw'n gyfnod sydd wedi ei wahanu gan ysbaid o un awr o leiaf oddi wrth gyfnod blaenorol pan fu'r un cerbyd ar yr un diwrnod yn aros ar unrhyw un neu rai o ymylon y darnau hynny o'r gefnffordd..

(3) Nid oes dim yn erthygl 7 yn ei gwneud yn anghyfreithlon i beri neu i ganiatáu i gerbyd person anabl y mae bathodyn person anabl a disg barcio (y mae'r gyrrwr, neu berson arall sydd â rheolaeth ar y cerbyd wedi marcio arno yr amser pan ddechreuodd y cyfnod aros) yn cael eu harddangos arno, aros ar ymyl y darn o'r gefnffordd y cyfeirir ato rhwng 08:00 o'r gloch a 18:00 o'r gloch ar unrhyw ddiwrnod ac eithrio dydd Sul am gyfnod nad yw'n fwy na dwy awr, a bod hwnnw'n gyfnod sydd wedi ei wahanu gan ysbaid o un awr o leiaf oddi wrth gyfnod blaenorol pan fu'r un cerbyd ar yr un diwrnod yn aros ar unrhyw un neu rai o ymylon y darn hwnnw o'r gefnffordd .

9. Mae Gorchymyn y Gefnffordd A483 (Rhydaman, Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros) 2005(5) drwy hyn wedi ei ddirymu.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiad 20 Hydref 2011

*G R Morgan*

**G MORGAN**
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p. 27; Mae adrannau 1(1), 2(1) a (2) wedi eu diwygio gan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22). Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
**(2)** O.S. 2000/1786
**(3)** O.S. 2000/1785
**(4)** 2003 p.21
**(5)** O.S. 2005/3387

## YR ATODLENNI

### Darnau o Gefnffordd yr A483 yn Rhydaman yn Sir Gaerfyrddin.

### ATODLEN 1
### GWAHARDD AROS, LLWYTHO A DADLWYTHO AR UNRHYW ADEG

Yr ymyl ogledd-orllewinol o'r darn hwnnw o'r gefnffordd a elwir yn Wind Street sy'n ymestyn o bwynt 15 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd a'r ffordd Dosbarth 2, y B4554, Lôn Tir-y-Dail, i bwynt 61 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd Dosbarth 2, y B4554, Lôn Tir-y-Dail.

Yr ymyl dde-ddwyreiniol o'r darn hwnnw o'r gefnffordd a elwir yn Wind Street sy'n ymestyn o bwynt 10 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd Dosbarth 1, yr A474, i bwynt 63 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd Dosbarth 1, yr A474.

Yr ymyl dde-orllewinol o'r darn hwnnw o'r gefnffordd a elwir yn Stryd y Coleg sy'n ymestyn o bwynt 70 o fetrau i'r de-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth, yr W6028, Heol Iscennen, i bwynt 122 o fetrau i'r de-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth, yr W6028, Heol Iscennen.

Yr ymyl ogledd-orllewinol o'r darn hwnnw o'r gefnffordd a elwir yn Stryd y Coleg sy'n ymestyn o bwynt 6 metr i'r de-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth, yr W6084, Stryd Marged, i bwynt 40 o fetrau i'r de-ddwyrain i'r de-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd ddi-ddosbarth, yr W6084, Stryd Marged.

## ATODLEN 2
## GWAHARDD AROS AR UNRHYW ADEG

Yr ymyl dde-orllewinol o'r darn hwnnw o'r gefnffordd a elwir yn Stryd y Coleg sy'n ymestyn o bwynt 14 o fetrau i'r de-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd ddi-ddosbarth, yr W6007, Teras Brynteg, i bwynt 14 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd ddi-ddosbarth, yr W6007, Teras Brynteg.

## ATODLEN 3
## GWAHARDD AROS AR UNRHYW ADEG (AC EITHRIO TACSIS)

Yr ymyl ogledd-orllewinol o'r darn hwnnw o'r gefnffordd a elwir yn Wind Street sy'n ymestyn o bwynt 84 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd Dosbarth 2, y B4554, Lôn Tir-y-Dail, i bwynt 102 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd a'r ffordd Dosbarth 2, y B4554, Lôn Tir-y-Dail.

## ATODLEN 4
## LLWYTHO A DADLWYTHO YN UNIG, RHWNG 09.00 O'R GLOCH A 17.00 O'R GLOCH O DDYDD LLUN I DDYDD SADWRN

Yr ymyl ogledd-orllewinol o'r darn hwnnw o'r gefnffordd a elwir yn Wind Street sy'n ymestyn o bwynt 61 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd Dosbarth 2, y B4554, Lôn Tir-y-Dail, i bwynt 84 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd a'r ffordd Dosbarth 2, y B4554, Lôn Tir-y-Dail.

Yr ymyl dde-orllewinol o'r darn hwnnw o'r gefnffordd a elwir yn Stryd y Coleg sy'n ymestyn o bwynt 122 o fetrau i'r de-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd ddi-ddosbarth, yr W6028, Heol Iscennen, i bwynt 138 o fetrau i'r de-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd ddi-ddosbarth, yr W6028, Heol Iscennen.

## ATODLEN 5
## PARCIO I'R ANABL YN UNIG, RHWNG 08.00 O'R GLOCH a 18.00 O'R GLOCH DYDD LLUN I DDYDD SADWRN

Yr ymyl ddeheuol o'r darn hwnnw o'r gefnffordd a elwir yn Wind Street sy'n ymestyn o bwynt 102 o

fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd Dosbarth 2, y B4554, Lôn Tir-y-Dail, i bwynt 117 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd Dosbarth 2, y B4554, Lôn Tir-y-Dail.